Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Mynyddygarreg

**Mynyddygarreg**
**Cydweli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA17 4RL**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Mynyddygarreg

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Mynyddygarreg |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 38 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 30 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn ysgolion cynradd yw 23.0%) | 10.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn ysgolion cynradd yw 16.1%) | 23.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 73.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 28/02/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 15/06/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 27/02/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae bron bob disgybl yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol gartrefol a gofalgar hon. Maent yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt ac yn barod i ymateb i unrhyw bryder sydd ganddynt. Mae'r staff yn cydweithio'n hynod effeithiol i sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ym mron bob un o'r medrau. Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r dulliau effeithiol mae'r staff yn eu defnyddio i loywi Cymraeg y disgyblion. O ganlyniad, mae medrau Cymraeg bron bob disgybl yn datblygu'n gadarn ac maent yn ymfalchïo yn eu medrau dwyieithrwydd. At ei gilydd, nid yw'r athrawon yn darparu digon o gyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Mae ymddygiad bron bob disgybl yn ardderchog. Maent yn dangos parch at eu cyfoedion ac at oedolion. Mae'r disgyblion yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd ac yn trafod a rhannu syniadau'n aeddfed. Maent yn dangos cymhelliant cryf a diddordeb chwilfrydig yn eu dysgu. Mae'r athrawon yn cynllunio ystod dda o weithgareddau sy'n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn holi'r disgyblion yn dreiddgar sy'n eu cefnogi i ddatblygu eu medrau yn gyson. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n diwallu anghenion pob disgybl, yn enwedig y rhai sy'n cael eu hadnabod fel rhai mwy abl.

Mae'r penaethiaid dros dro wedi datblygu gweledigaeth gyson sy'n eu cefnogi i ddatblygu gwahanol agweddau o'r ysgol. Gyda chefnogaeth frwdfrydig tîm bach o staff, maent yn canolbwyntio ar wella medrau'r disgyblion a darparu profiadau ysgogol sy'n cyfoethogi'r dysgu. Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth briodol o gryfderau a meysydd gwella'r ysgol. Fodd bynnag, mae'r ansicrwydd presennol am arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol yn llesteirio gallu arweinwyr i wneud penderfyniadau strategol a chynaledig er budd disgyblion a holl bartneriaid yr ysgol. Mae gan yr ysgol berthynas fuddiol â'r rhieni a'r gymuned ehangach.

## Argymhellion

A1 Darparu arweinyddiaeth a rheolaeth strategol a chynaledig i'r ysgol

A2 Darparu her briodol i bob disgybl er mwyn iddynt gyflawni hyd orau eu gallu, yn enwedig y rhai mwy abl

A3 Darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w cam datblygiad a'u mannau cychwyn. Mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

Ym mlynyddoedd is yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn fedrus yn Gymraeg. Maent yn defnyddio ystod addas o eirfa er mwyn ymestyn eu sgyrsiau, er enghraifft wrth drafod eu hoff ffrwythau mewn sesiwn blasu bwydydd iach. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio geirfa ymestynnol a phatrymau Cymraeg wrth iddynt sgwrsio'n  hyderus am eu gwaith. Mae bron bob disgybl yn gwrando'n astud mewn sesiynau stori ac wrth ddilyn cyfarwyddiadau athrawon.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio eu gwybodaeth ffonolegol yn hyderus wrth iddynt ddarllen geiriau syml mewn sesiynau iaith. Wrth iddynt ddatblygu eu medrau, maent yn darllen ar goedd yn gynyddol hyderus wrth ddefnyddio ystod o dechnegau darllen. Maent yn trafod testun yn synhwyrol, gan gyfeirio at gymeriadau o fewn y llyfrau maent yn eu darllen. Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Gyda chefnogaeth staff, mae disgyblion y dosbarth Derbyn yn dechrau ysgrifennu brawddegau syml ac yn cynnwys atalnodi addas yn y testun, er enghraifft wrth ddisgrifio eu hoff fwydydd. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio berfau ac ansoddeiriau yn hyderus i gyfoethogi testun, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr at gymeriad yn eu hoff lyfr.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio strategaethau rhif yn gynyddol gywir. Mae ganddynt afael dda ar ffeithiau rhif hyd at 100 ac yn adio a thynnu rhifau 2 digid yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth gwblhau tablau a graffiau, er enghraifft i ddangos hoff liw disgyblion y dosbarth. Mae medrau digidol llawer o'r disgyblion yn datblygu'n bwrpasol. Maent yn defnyddio llechen gyfrifiadurol yn fedrus wrth gofnodi ac arbed eu gwaith. Maent yn rheoli tegan rhaglenadwy yn effeithiol, er enghraifft wrth ddarganfod eu ffordd i dŷ'r tri mochyn bach.

Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, mae medrau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn yn y ddwy iaith. Maent yn siarad Cymraeg yn hyderus, er enghraifft wrth ddefnyddio geirfa gyfoethog i ddisgrifio clawr llyfrau fel rhan o weithgareddau dathlu Diwrnod y Llyfr. Maent yn awyddus i fynegi barn gan ddefnyddio ystod o eirfa addas wrth gyflwyno rhesymau penodol.

Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn gynyddol hyderus. Maent yn darllen ystod o destunau yn y ddwy iaith gan ynganu geiriau anghyfarwydd yn gywir, gan amlaf. Maent yn trafod cymeriadau a phrif destun yn effeithiol ac yn awyddus i gyflwyno gwybodaeth am y stori. Maent yn darllen, dadansoddi a chrynhoi cynnwys testunau ffeithiol yn bwrpasol, er enghraifft wrth ddysgu am sefydliadau hanesyddol Cymru. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn ysgrifennu mewn ystod ddiddorol o ffurfiau pwrpasol yn y ddwy iaith. Mae llawysgrifen y rhan fwyaf yn daclus ac maent yn dangos parch wrth gofnodi eu gwaith. Maent yn defnyddio patrymau brawddeg yn gynyddol gywir ac yn cynnwys ansoddeiriau diddorol er mwyn

cyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth ysgrifennu barddoniaeth yn disgrifio effaith negyddol pobl ar gynefinoedd anifeiliaid.

Ym mlynyddoedd uwch yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r ffeithiau rhif a dulliau rhifo. Mae ganddynt afael gadarn ar waith rhif, gan luosi rhifau tri digid gydag un digid yn hyderus. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o siâp a gofod, er enghraifft wrth ddod o hyd i arwynebedd a pherimedr siapiau safonol ac ansafonol. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae medrau digidol llawer o ddisgyblion yn adeiladu'n gyson. Maent yn defnyddio'r rhyngrwyd i chwilio am wybodaeth ac yn creu cyflwyniadau'n  llwyddiannus i grynhoi eu canfyddiadau, er enghraifft wrth hyrwyddo pwysigrwydd peidio â gwastraffu bwyd.

Ar draws yr ysgol, mae'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd at wahanol bwrpasau yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn ysgrifennu dyddiadur ffeithiol i ddisgrifio eu hymweliad â bwyty lleol. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu erthygl papur newydd ffug i ddisgrifio trychineb naturiol yn yr ardal leol. Pan gânt gyfleoedd pwrpasol, mae'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd mewn amryw gyd-destun sy'n cysylltu'n briodol â'u themâu tymhorol. Er enghraifft, fel rhan o'u gwaith masnach deg, mae'r disgyblion hynaf yn darganfod pris cynnyrch yn y siopau gan gyfrifo canran yr elw mae'r ffermwyr yn ei derbyn am eu cynnyrch. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn cynllunio'n ddigon bwriadus i'r disgyblion ddatblygu eu medrau rhif ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Maent yn defnyddio ystod dda o adnoddau er mwyn efelychu dulliau celf artistiaid enwog o Gymru, ac maent yn mwynhau perfformio mewn cyngherddau ac eisteddfodau lleol. O ganlyniad, caiff hyn effaith gadarnhaol ar hyder disgyblion wrth gyflwyno eu hunain yn greadigol, gan gynnwys eu gallu i ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn mwynhau mynychu'r ysgol ac yn falch ohoni a'i chymuned. Maent yn teimlo'n gwbl ddiogel yno ac yn gwybod bod staff ar gael i wrando a rhoi cyngor iddynt bob tro. Maent yn hyderus bod staff yn ymateb i unrhyw bryder sydd ganddynt yn brydlon. Mae ymddygiad bron bob disgybl yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn ardderchog ac maent yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch a chwrteisi. Mae'r disgyblion hynaf yn cymryd gofal o'r rhai ieuengaf yn naturiol ac aeddfed. Mae bron bob un yn gwrtais ac ystyriol ac maent yn dangos balchder wrth siarad am eu hysgol. Mae hyn yn nodwedd gref o'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarn at eu dysgu ac yn datblygu'n ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig. Maent yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau ac yn gweithio'n gyson dda fel unigolion, parau ac mewn grwpiau bychain. Maent yn cydweithio'n gytûn ac, ar y cyfan, yn ymroi'n frwdfrydig i ymgymryd â heriau sy'n eu hannog i weithio'n gynyddol annibynnol. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw lleiafrif y disgyblion yn cwblhau'r tasgau hyd orau eu gallu bob tro.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn frwdfrydig wrth ddylanwadu ar yr hyn maent yn ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Trwy ddefnydd effeithiol o'r waliau cynllunio a'r trafodaethau ar ddechrau thema newydd, mae disgyblion yn rhannu eu syniadau ac yn ychwanegu cwestiynau ynglŷn â'r hyn maent am ei ddysgu. O

ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod oedolion yn gwrando ar eu syniadau ac yn eu hystyried wrth gynllunio'r gweithgareddau dysgu ar eu cyfer. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd a diddordeb yn eu gwaith.

Mae mwyafrif y disgyblion yn darllen dros eu gwaith ac yn cywiro rhai o'r gwallau, er enghraifft sillafu ac atalnodi, yn dda. Maent yn ymateb yn briodol i'r adborth ac yn gwella rhai agweddau o'u gwaith, ac yn deall, ar y cyfan, beth yw'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae'r disgyblion sy'n aelodau o'r cyngor ysgol yn ymwneud â'u cyfrifoldebau yn frwdfrydig. Maent yn cyfrannu'n effeithiol at fywyd a gwaith yr ysgol ac yn datblygu eu medrau arwain yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn dwysáu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd ailgylchu, arbed ynni a lleihau'r defnydd o blastig o fewn yr ysgol trwy rannu gwybodaeth ddefnyddiol gyda'u cyfoedion. Yn ogystal, maent yn trefnu gweithgareddau i godi arian i blant mewn ysgol yn Nhanzania fel rhan o brosiect Luhimba. O ganlyniad, mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at gefnogi disgyblion i ddysgu am agweddau amgylcheddol yn lleol a rhyngwladol.

Mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o werthoedd moesol a chydraddoldeb yn datblygu'n dda. Maent yn ymdrin â thestunau fel priodas o'r un rhyw mewn modd sensitif ac aeddfed ac yn mynegi barn yn glir, gan wrando'n ofalus ar gyfraniadau eraill. O ganlyniad, maent yn datblygu'n ddinasyddion gwybodus a goddefgar sydd yn trafod pynciau cyfoes a chyfredol yn synhwyrol.

Mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac maent yn deall effaith ymarfer corff ar eu hiechyd. Maent yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gweithgareddau corfforol ac yn mwynhau cymryd rhan mewn cystadlaethau sirol, gan gynnwys rhedeg traws gwlad a thwrnameintiau pêl-droed.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan bob aelod o staff berthynas weithiol hynod gadarn gyda disgyblion sy'n cefnogi eu lles a'u haddysg yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn darparu amgylchedd dysgu pwrpasol a diddorol lle mae arddangosfeydd deniadol yn dathlu gwaith disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae agweddau'r rhan fwyaf o ddisgyblion at eu dysgu yn gadarn. Maent yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn ymfalchïo ynddi, ynghyd â'u cymuned leol.

Mae'r staff yn cynllunio ystod eang o brofiadau difyr, sy'n hybu gwerthoedd ac egwyddorion y Cwricwlwm newydd i Gymru yn effeithiol. Mae athrawon yn addasu eu cynlluniau gwaith yn bwrpasol gan gwmpasu'r meysydd dysgu a phrofiad yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau diddorol ac ysgogol sydd yn ennyn diddordeb bron bob un yn llwyddiannus. O fewn eu themâu tymhorol, mae'r disgyblion ieuengaf yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau ac ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy weithgareddau amrywiol. Er enghraifft, maent yn dysgu am ddiwylliannau gwledydd eraill wrth flasu gwahanol fwydydd ar draws y byd.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion ieuengaf gymhwyso eu medrau llythrennedd yn fwriadus, er enghraifft wrth ysgrifennu cyfres o frawddegau doniol i greu stori greadigol. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau yn effeithiol, er enghraifft wrth ddewis ansoddeiriau a chymariaethau diddorol tra'n

ysgrifennu cerddi i ddisgrifio byd natur a sut i ofalu am yr amgylchedd. Mae athrawon yn darparu ystod effeithiol o weithgareddau i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol, er enghraifft wrth gyflwyno gwybodaeth am sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd bwriadus a chyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad.

Mae'r athrawon yn annog disgyblion i gyfrannu eu barn am yr hyn maent am ei ddysgu yn effeithiol drwy gofnodi eu syniadau ar y goeden cwestiynau a mapiau meddwl. Mae staff yn talu sylw i syniadau ac awgrymiadau disgyblion yn synhwyrol wrth gynllunio ystod o weithgareddau ysgogol, er enghraifft wrth ddarparu cyfle iddynt berfformio dawns draddodiadol yn Eisteddfod Mynyddygarreg.

Mae gan yr athrawon wybodaeth drylwyr am wahanol feysydd ar draws y cwricwlwm. Maent yn gweithio'n frwdfrydig ac angerddol i loywi Cymraeg y disgyblion. Er enghraifft, maent yn defnyddio caneuon a symudiadau yn effeithiol fel rhan o'r dulliau cyflwyno ac yn atgyfnerthu geirfa a phatrymau iaith yn llwyddiannus. Mae'r staff yn siarad Cymraeg yn fedrus a chywir ac yn annog a chefnogi'r disgyblion i ddefnyddio Cymraeg raenus sy'n naturiol i'w hardal leol, yn dda. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth gaffael a datblygu eu medrau Cymraeg. Yn ogystal, caiff medrau iaith disgyblion eu datblygu'n effeithiol yn Saesneg, ac yn Ffrangeg wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn ymateb i'w hanghenion yn gadarn, gan gynnwys eu hanghenion lles emosiynol. Maent yn olrhain cynnydd disgyblion yn briodol gan addasu eu cynlluniau i ddiwallu anghenion y rhan fwyaf ohonynt. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n cynnig her briodol er mwyn diwallu anghenion pob disgybl yn gyson ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion yn cyflawni hyd orau eu gallu bob tro, yn enwedig disgyblion sy'n cael eu hadnabod fel y rhai mwy abl.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn darparu adborth llafar priodol er mwyn dathlu llwyddiannau'r disgyblion a'u harwain at y camau nesaf yn eu dysgu. Maent yn dechrau rhoi cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion sy'n eu hannog i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu. Mae'r disgyblion yn ymateb yn dda i'r adborth ysgrifenedig sydd yn eu cynorthwyo i wybod beth a sut i'w gyflawni er mwyn gwneud cynnydd yn eu medrau.

Mae'r staff yn cynnig ystod o brofiadau dysgu diddorol sy'n cefnogi disgyblion i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a hyderus mewn cyd-destunau Cymreig. Er enghraifft, fel rhan o'i thema 'Does unman yn debyg i Mynyddygarreg', mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am hanes lleol a rhai o brif chwedlau Cymru, gan gynnwys stori y dywysoges Gwenllïan. Mae'r staff yn manteisio ar gyfleoedd bwriadus i gyfoethogi gweithgareddau'r cwricwlwm drwy gynllunio teithiau addysgol a gwahodd ymwelwyr i'r ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dwysáu dealltwriaeth disgyblion o addysg bersonol a chymdeithasol yn effeithiol, er enghraifft wrth ddarparu cyfleoedd iddynt fyfyrio ar agweddau pwysig o fywyd fel cydraddoldeb a pharch at eraill.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned hynod ofalgar sy'n meithrin gofal, cymorth ac arweiniad cadarn i'r disgyblion. Mae'r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn nodwedd gref o'r ysgol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad

da a chwrteisi bron bob un o'r disgyblion, a'u hagweddau cadarn at ddysgu, yr ysgol a'r gymuned.

Mae staff yn hybu'r Gymraeg a gwerthoedd Cymreig yn hynod effeithiol. Maent yn ennyn a chynnal balchder disgyblion at ddiwylliant ac etifeddiaeth Cymru yn effeithiol, ac yn darparu gweithgareddau buddiol iddynt ddatblygu eu medrau amlieithog. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddysgu am unigolion enwog a sefydliadau diwylliannol pwysig o Gymru fel rhan o'u dathliadau Dydd Gŵyl Dewi, er enghraifft. Mae bron bob disgybl yn canu alawon a chaneuon Cymraeg gydag angerdd ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i feithrin ac ymfalchïo yn y Gymraeg a phob agwedd o ddiwylliant ac hanes Cymru.

Mae athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n sicrhau cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion feithrin dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cynaliadwyedd. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o effaith pobl ar gynefinoedd gwahanol anifeiliaid, a phwysigrwydd dangos parch at ei gilydd a'r byd. Mae athrawon yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion gofalgar a chydwybodol yn dda trwy weithgareddau sy'n cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth gasglu cynnyrch i'w gyfrannu i'r banc bwyd lleol. Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus. O fewn y gwasanaethau ysgol gyfan, darperir cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain a dysgu am amrywiaeth o fewn cymdeithas.

Mae gan arweinwyr drefniadau cadarn i adnabod disgyblion o oedran cynnar sy'n cael eu hadnabod fel rhai sydd angen cefnogaeth bellach â'u hanghenion lles a dysgu. Mae athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio'n gyson â rhieni i ddatblygu cynlluniau unigol i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau. Mae'r staff yn darparu gofal arbennig i gefnogi lles emosiynol disgyblion. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad cyson at ystod o raglenni cefnogi priodol sy'n eu helpu i ymdrin â'u teimladau ac emosiynau. Drwy hyn, mae'r ysgol yn llwyddo i ymateb i bryderon unrhyw ddisgybl mewn ffordd sensitif. Caiff hyn ei gefnogi'n dda trwy ddarparu hyfforddiant buddiol i ddisgyblion am wahanol agweddau a nodweddion dysgu, er enghraifft am y cyflwr awtistiaeth. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i ymateb yn sensitif a chynhaliol i'w gilydd yn ystod amseroedd egwyl, er enghraifft.

Mae staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion leisio'u barn am y ddarpariaeth, gan gynnwys cyfleoedd pwrpasol i drafod eu syniadau ar ddechrau thema newydd. Maent yn cynnig sesiynau gwerthfawr i'r disgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau drwy ymuno â grwpiau dylanwadol. Er enghraifft, drwy arwain y system gwobrwyo, mae disgyblion y cyngor ysgol yn hybu defnydd o'r Gymraeg yn ystod amseroedd egwyl yn hynod effeithiol.

Darperir nifer o ymweliadau cyfoethog i'r disgyblion sy'n hybu eu diddordeb am ddiwylliant a'r gymuned yn llwyddiannus. Er enghraifft, fel rhan o'r thema am hanes a diwylliant Cymru, mae athrawon yn trefnu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymweld â mannau hanesyddol fel Sain Ffagan. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn gadarn. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau creadigol drwy weithgareddau cerddorol a chelfyddydol diddorol, gan gynnwys perfformio mewn eisteddfodau ac achlysuron lleol fel nosweithiau cawl a chân.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod diwylliant cryf o ddiogelu yn treiddio trwy'r ysgol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer sicrhau presenoldeb cyson disgyblion yn gadarn.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mewn cyfnod byr ers penodi'r ddau bennaeth dros dro, maent wedi datblygu gweledigaeth gyson a chadarn i'r ysgol. Maent yn cael eu cefnogi'n frwd gan dîm bach o staff, a gyda'i gilydd, maent yn cydweithio'n ddiwyd i ddarparu cyfleoedd addysgol cyfoethog i'r disgyblion. Un o nodweddion cryf yr ysgol yw'r ddarpariaeth fwriadus i wella medrau Cymraeg disgyblion ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae medrau Cymraeg bron bob disgybl yn datblygu'n gadarn ac mae eu hagweddau at yr iaith a'u diwylliant yn nodwedd gref o'r ysgol.

Mae gan y penaethiaid dros dro ddisgwyliadau uchel o'u hunain, y staff a'r disgyblion. Maent yn annog disgyblion i ddangos parch ac agweddau cadarn at eu dysgu. Mae'r staff yn cael cyfleoedd cyson i fynychu sesiynau sy'n ateb gofynion eu dysgu proffesiynol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r penaethiaid yn mynychu hyfforddiant sy'n eu cefnogi i ddatblygu eu medrau arwain. Yn ogystal, mae'r penaethiaid yn cael cefnogaeth swyddogion yr awdurdod lleol i gynllunio a gweithredu blaenoriaethau gwella yn fwy strategol. Mae hyn, yn ei dro, yn darparu trefniadau penodol iddynt ddatblygu'r ysgol mewn modd bwriadus a synhwyrol, sy'n cynnwys agweddau o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Erbyn hyn, mae gan arweinwyr drefniadau hunanwerthuso priodol sy'n ymateb yn dda i feysydd gwella'r ysgol. Er enghraifft, mae'r penaethiaid yn cynnal teithiau dysgu ac yn craffu ar waith disgyblion yn dymhorol. Maent yn talu sylw ystyrlon i'r hyn sy'n dda a'r hyn sydd angen ei wella yn y ddarpariaeth er mwyn cael effaith gadarn ar gynnydd disgyblion. Caiff y canfyddiadau eu blaenoriaethu'n synhwyrol mewn dull ymarferol gan weithredu ar drefniadau sy'n canolbwyntio ar yr addysgu a'r dysgu. Fodd bynnag, mae'n rhy fuan i werthuso effaith hyn ar godi safonau disgyblion.

Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth briodol o gryfderau a meysydd gwella'r ysgol. Mae aelodau'r corff yn cymryd rhan mewn teithiau dysgu yn dymhorol yn seiliedig ar y blaenoriaethau gwella, er enghraifft wrth ymweld â dosbarthiadau a thrafod â disgyblion am eu gwaith. Maent yn cyfarfod i drafod y cynnydd yn erbyn y meysydd i'w gwella ac yn adrodd eu canfyddiadau mewn cyfarfodydd amserol gan herio arweinwyr, fel y bo'n briodol. At ei gilydd, nid yw'r llywodraethwyr yn hyderus eu gwybodaeth am effaith y ddarpariaeth ar gynnydd y disgyblion. Maent yn manteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ymysg disgyblion, er enghraifft wrth eu hannog i fwyta ffrwythau ac yfed dŵr yn gyson.

Mae gan y corff llywodraethol is-bwyllgorau sy'n cyfarfod i drafod nifer o feysydd, gan gynnwys y gyllideb, staffio a rheoli perfformiad y penaethiaid. Fodd bynnag, mae sefyllfa arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol yn parhau i fod yn ansefydlog. O ganlyniad, mae hyn yn amharu ar allu arweinwyr i gynllunio'n strategol a chynaledig ar gyfer y dyfodol.

Mae'r staff yn gwneud defnydd priodol o ardaloedd cyfyngedig yr ysgol i gyfoethogi'r ddarpariaeth i'r disgyblion. Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi gwneud asesiad o gyflwr yr adeilad sydd angen buddsoddiad sylweddol er mwyn ei gynnal a chadw i safon ac ansawdd da. Mae safon yr adeilad a safle'r ysgol yn llesteirio gallu'r staff i wneud defnydd llawn o'r adnoddau er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion.

Mae gan yr ysgol berthynas gynhyrchiol â theuluoedd a chymuned ehangach yr ysgol. Mae staff yn hyrwyddo'r ethos o fod yn rhan o un teulu mawr. O ganlyniad,

mae'r rhieni yn teimlo'n hyderus fod yr ysgol yn gwrando ar unrhyw bryder sydd ganddynt. Mae'r staff yn sicrhau bod y rhieni'n cael gwybodaeth gyson am weithgareddau'r ysgol drwy'r ap sy'n cael ei ddiweddaru'n gyson. Mae staff yn weladwy ar gychwyn a diwedd y diwrnod ysgol wrth groesawu'r disgyblion a'u rhieni ar safle'r ysgol.

Mae'r gymdeithas rhieni a chyfeillion yr ysgol yn gweithredu'n effeithiol i gefnogi'r ysgol drwy eu gweithgareddau tymhorol, er enghraifft wrth drefnu diwrnodau hwyl ar y cae i godi arian i'r ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud cysylltiadau pwrpasol â busnesau lleol; er enghraifft, gyda chefnogaeth y ganolfan arddio, mae'r disgyblion yn plannu planhigion er mwyn gwella'r amgylchedd yn y gymuned.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/05/2023